# Hysbysiad Preifatrwydd

# Ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn crynhoi (ac nid yn lle) ein Polisi Preifatrwydd llawn ni.

Mae'r dudalen hon yn sôn sut mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn defnyddio ac yn gofalu am y wybodaeth sydd gynnon ni amdanoch chi. 'Da ni hefyd yn egluro eich hawliau chi o ran y wybodaeth sydd gynnon ni amdanoch chi.

**Pwy ydy'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd?**

Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhywun sy'n gwneud yn siŵr fod Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud gwaith gwych. Maen nhw'n gwneud hyn drwy wrando a helpu pobl yn ein cymunedau ni.

**Beth ydy data personol?**

Data personol ydy unrhyw wybodaeth sy'n gallu cael ei defnyddio er mwyn eich adnabod chi. Dyma'r math o wybodaeth sydd gynnon ni amdanoch chi. Mae hyn yn gallu bod yn bethau fel eich enw chi neu lun ohonoch chi. Mae hyd yn oed yn gallu bod yn bethau fel eich cyfeiriad e-bost personol chi neu eich enw defnyddiwr chi ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae yna rai mathau o ddata mae'n rhaid i ni fod yn ofalus iawn hefo nhw. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel data categori arbennig. Mae hyn yn gallu bod yn rhywbeth fel eich cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu darddiad ethnig. Er hynny, fe wnawn ni ond defnyddio ychydig iawn o'r wybodaeth bersonol hon pan mae angen gwneud er mwyn stopio troseddau a chadw'r gyfraith.

**Pam 'da ni'n defnyddio eich data personol chi?**

Y prif reswm 'da ni'n casglu ac yn defnyddio eich data personol chi ydy er mwyn gwybod pwy 'da chi. Mae hyn fel ein bod ni hefo'r wybodaeth i gyd er mwyn eich helpu chi. Os 'da chi wedi gofyn am ein help ni, mae eich data personol chi'n gallu'n helpu ni eich helpu chi. Byddwn ni ond yn defnyddio gwybodaeth bersonol pan fydd y gyfraith yn gadael i ni wneud. Mae hyn yn cael ei wneud pan mae angen hyn a phan mae'n rhesymol i ni wneud.

**Data personol pwy 'da ni'n ei reoli?**

Mae yna sefyllfaoedd penodol lle 'da ni'n prosesu eich gwybodaeth chi. Y rhain ydy pan 'da chi:

- Yn rhan o grŵp sydd wedi ennill gwobr gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd
- Yn unigolyn sy'n cwyno neu'n gofyn cwestiwn
- Wedi dioddef neu wedi gweld digwyddiad
- Yn rhywun mae pobl yn feddwl sydd wedi troseddu

'Da ni'n rheoli eich gwybodaeth bersonol chi mewn sawl ffordd, yn electronig ac ar bapur. Er enghraifft, mae hyn yn gallu bod fel ffeiliau papur, negeseuon e-bost neu luniau.

**A allwn ni ddefnyddio eich data personol chi ar gyfer unrhyw beth?**

Na. Er ein bod ni hefo'ch data personol, dydy hyn ddim yn golygu ein bod ni'n gallu gwneud bob dim 'da ni eisiau hefo fo. Rhaid i ni ddilyn rhai rheolau. Weithiau mae rhaid i ni ofyn a allwn ni ei ddefnyddio. Os 'da chi'n dweud 'na', yna 'da ni ddim yn gallu ei ddefnyddio. Byddwch chi angen bod yn 13 oed o leiaf er mwyn gadael i ni rannu eich data personol chi. Os dydych chi ddim, mae angen i chi ofyn i riant neu warcheidwad eich helpu chi.

Er hynny, y rhan fwyaf o'r amser, bydd angen i ni ddefnyddio'ch data personol chi er mwyn gwneud ein gwaith ni. Weithiau gallwn ni wneud hyn heb ofyn i chi yn gyntaf. Er enghraifft, os byddwch chi yn gwneud cwyn, gallwn ni ei anfon at Heddlu Gogledd Cymru i edrych arni hi. Wnawn ni byth rannu eich data personol chi hefo unrhyw un arall oni bai eich bod chi'n dweud wrthon ni y gallwn ni, neu ein bod ni'n meddwl y bydd gwneud hynny yn eich gwarchod chi rhag cael eich brifo neu fod y gyfraith yn dweud wrthon ni wneud.

**Pa mor hir 'da ni'n cadw eich data chi?**

Fe wnawn ni gadw eich data personol chi am ba mor hir mae ei angen ar gyfer ein gwaith ni. Mae yna reolau gwahanol ar gyfer sawl math o ddata. 'Da ni'n gwneud yn siŵr bod ni'n dilyn y rheolau i gyd. Mae eglurhad mwy manwl yn y Polisi Preifatrwydd llawn.

**Beth allwch chi wneud am y data sydd gynnon ni amdanoch chi?**

Mae'r gyfraith yn rhoi 'hawliau' i chi o ran y wybodaeth bersonol sydd gynnon ni. Mae hyn yn golygu eich bod chi:

- yn gofyn i ni sut 'da ni'n casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth chi
- yn gofyn am gopi o'ch gwybodaeth chi
- yn gofyn i ni newid eich gwybodaeth chi os 'da chi'n meddwl ei bod yn anghywir
- yn gofyn i ni gael gwared ar eich gwybodaeth lle nad oes rheswm yn y gyfraith i ni ei chadw hi
- yn gofyn i ni stopio defnyddio eich gwybodaeth chi os oes gynnoch chi reswm penodol

Os fasa chi'n hoffi gofyn i ni wneud unrhyw un o'r uchod, gallwch chi anfon e-bost atom ni ar OPCC@northwales.police.uk.

Neu gallwch chi ysgrifennwch atom ni:

Swyddog Diogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glan-y-Don Bae Colwyn, LL29 8AW

Os byddwch chi'n gofyn i ni am unrhyw un o'r uchod, gall fod yn help cael oedolyn i'ch helpu chi rhag ofn y bydd angen i ni wneud yn siŵr pwy 'da chi. Unwaith 'da chi 'di gofyn i ni, mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i ni eich ateb chi'n ôl o fewn mis.

**Gwybodaeth cysylltu**

Os 'da chi'n teimlo dydan ni'm yn rheoli eich data chi'n iawn neu ddim yn dilyn y rheolau, gallwch chi:

E-bostiwch ni: OPCC@northwales.police.uk

Ysgrifennwch atom ni: Swyddog Diogelu Data Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Glan-y-Don Bae Colwyn, LL29 8AW

Gallwch chi hefyd [wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth].

Mae'r tabl isod ar gyfer staff sy'n gweithio i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gadw cofnod o'r ddogfen hon a'i diweddaru hi.

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc |
| **Perchennog y Polisi:** | Y Prif Weithredwr |
| **Awdur y Polisi:** | Y Swyddog Gweithredol |
| **Rhif y Polisi:** | 34 |
| **Dyddiad Dod i Rym:** | 10.07.2024 |
| **Diweddarwyd** | |
| **Dyddiad Adolygu:** | [4 blynedd] |
| **Fersiwn:** | Fersiwn 1.0 |